**CYNGOR BRO MACHNO**

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Iau, 12fed o Fedi 2019 yn Festri Salem am 7.00

**Presennol:** Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Dewi Jones, Colin Jones, Claire Roberts, Eryl Owain, Luned McFadden, Geraint Thomas, y Cynghorydd Sir, Wyn Ellis Jones a'r clerc, Elfed Williams.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Siân Anwyl Jones.

Mynegwyd cydymdeimlad â'r clerc yn ei brofedigaeth o golli ei frawd.

**Cofnodion:** Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 11eg o Orffennaf 2019 fel rhai cywir, Eryl Owain yn cynnig a Colin Jones yn eilio.

**Materion yn codi:**

**Ffordd Hafod-y-rhedwydd:** Nid yw'r gwaith trwsio wedi ei wneud; penderfynwyd atgoffa'r Cyngor Sir o gyflwr y ffordd.

**Cyfyngiad cyflymdra:** Dim gwybodaeth am y cais i gyflwyno gwaharddiad parcio 20 milltir yr awr ger yr ysgol. Penderfynwyd cysylltu eto â'r Cyngor Sir.

**Mynwent yr Eglwys:** Nid oedd prisiau ar gyfer gwaith tacluso wedi eu derbyn ond penderfynwyd bod angen symud ymlaen o ran diogelwch.

**Swydd Clerc:** Nid oes ceisiadau wedi eu derbyn felly penderfynwyd dal ati i hysbysebu ac i wneud ymholiadau

**Materion Ariannol:**

Cyflwynwyd diweddariad o'r sefyllfa ariannol a chadarnhawyd bod digon o arian wrth gefn am weddill y flwyddyn ariannol.

Adroddodd y Clerc fod banc HSBC wedi codi costau ar y cyfrif. Nid yw wedi cael ateb boddhaol felly cynigiodd Claire Roberts wneud ymholiadau pellach.

**Materion eraill:**

**Materion ffyrdd:** Nodwyd nifer o faterion sydd angen sylw gan gynnwys cyflwr ffyrdd Glasgwm a Thŷ Coch, coed yn tyfu drosodd i'r ffordd ar ffordd Cwm a choed yn tyfu o ochrau pont Llan a'r bont dros afon Conwy ger yr A5. Bydd y clerc yn cysylltu efo'r Cyngor Sir.

**Rali RAC Cymru:** Cafwyd diweddariad gan y Cadeirydd am y trefniadau ar gyfer y Rali. Bydd Canolfan Shioloh Cwm Penmachno, Sioe Gŵn Penmachno a'r Ysgol yn rhannu'r gwaith stiwardio lleol.

**Pont ger y Felin Wlân:** Mae cwynion o hyd o loriau yn aflonyddu ar adeiladau ger y bont. Penderfynwyd cysylltu ymhellach ag Adran Priffyrdd Cyngor Sir Conwy ac â Chyfoeth Naturiol Cymru.

**Coed ym Mynwent Arwelfa:** Penderfynwyd gofyn i'r Cadeirydd gysylltu â'r sawl fu'n tacluso yno o'r blaen iddo wneud rhagor o waith tocio ar y coed.

**Ffioedd Claddu llwch:** Penderfynwyd ar y canlynol - £200 os yw'r ymadawedig yn byw tu allan i'r plwyf a £100 os yn byw oddi mewn i'r plwyf.

**Cinio'r Henoed:** Derbyniwyd cais am gyfraniad a phenderfynwyd ar gyfraniad o £100, Eryl Owain yn cynnig a Claire Roberts yn eilio.

**Cerbyd ar ochr y ffordd:** Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Sir Conwy oherwydd fod cerbyd wedi ei adael ar ochr y ffordd yn Cwm.

**Giât ar waelod llwybr y Waen:** angen sylw i'r giât sy'n agor o'r llwybr i'r ffordd.

**Coed Nadolig:** Penderfynwyd bod angen dwy goeden, i Penmachno a Cwm, yn ôl yr arfer a'r Clerc i wneud ymholiadau.